Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bryn Deri
# Caer Graig
# Radur
# Caerdydd
# CF15 8RD

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2019

## erbyn

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Bryn Deri

Mae Ysgol Gynradd Bryn Deri wedi'i lleoli ym mhentref Radur, yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae gan yr ysgol 243 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 35 o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn wyth dosbarth.

Cyfartaledd tair blynedd yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tuag 8%. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (18%). Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 18% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw cyfartaledd Cymru (21%). Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig a Saesneg yw prif iaith y cartref bron pob un ohonynt.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2012. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol yn 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a bywiog sy'n cynnig amgylchedd dysgu ysgogol i'w disgyblion.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn siarad yn frwd am y profiadau sy'n cael eu darparu gan yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu amrywiaeth eang o fedrau yn llwyddiannus wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

Mae gan yr holl staff berthynas waith gadarnhaol â disgyblion ac maent yn eu cynorthwyo a'u herio i gyflawni'n dda.  Rhoddant gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion lywio cyfeiriad eu dysgu a dylanwadu ar benderfyniadau am fywyd beunyddiol yr ysgol.  Mae'r ysgol yn rhoi cymorth effeithiol iawn i wella lles a chynnydd disgyblion unigol, trwy amrywiaeth fuddiol o ymyriadau.

Mae arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol, clir i'r ysgol.  Maent yn meithrin cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, sy'n cyfoethogi profiad y disgyblion yn dda.  Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac maent yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau gwelliannau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod adborth athrawon i ddisgyblion yn rhoi camau clir iddynt wella’u gwaith

A3 Gwella ansawdd gwaith ysgrifennu estynedig disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig, neu uwchlaw, ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu’u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac maent yn cyflawni safonau da erbyn Blwyddyn 6. Mae bron bob un o’r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni’n dda, yn unol â’u galluoedd.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau cyfathrebu da. Maent yn gwrando’n astud ar staff. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn dilyn cyfarwyddiadau’n ddi-oed wrth ddatblygu’u rheolaeth ar eu corff yn ystod gwers addysg gorfforol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus gyda’u cymheiriaid ac oedolion. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan lawer o ddisgyblion afael priodol ar seiniau llythrennau, sy’n eu cynorthwyo i ddarllen testunau priodol o heriol gydag annibyniaeth gynyddol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’u medrau ysgrifennu yn dda. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 yn ysgrifennu ar y llinell ac yn gadael bwlch rhwng geiriau yn briodol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa anturus yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu cerdd i ddisgrifio teigr fel *‘a predator, endangered and a great hunter that roars fiercely’*. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth dda o atalnodi yn gywir ac yn sillafu geiriau rheolaidd yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu’n bwrpasol at drafodaethau dosbarth. Mynegant eu syniadau a’u barn yn glir ac yn dangos parch at safbwyntiau pobl eraill. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen ac yn defnyddio’u medrau i wneud ymchwil ddefnyddiol yn gysylltiedig â’u gwaith pwnc. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn darllen yn annibynnol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyflwyniadau digidol a thudalennau gwe i ddysgu am Armada Sbaen. Maent yn gwerthuso pa ffynonellau sy’n fwyaf addas i’w tasg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n effeithiol ar gyfer cynulleidfa. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn dangos empathi mewn ffordd ddychmygus wrth ysgrifennu llythyron gartref ar ôl cael eu hanfon i Gymru yn ystod y Blitz. Fodd bynnag, nid ydynt yn mireinio ansawdd eu gwaith ysgrifenedig i gyfoethogi’u geirfa yn ddigon da. Mae’r rhan fwyaf o ddisgbylion yn cynhyrchu gwaith wedi’i gyflwyno’n daclus, gyda llawysgrifen o safon uchel.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol cryf. Yn y cyfnod sylfaen, mae gan bron pob un o’r disgyblion amgyffrediad da o ffeithiau rhif sylfaenol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn y dosbarth derbyn yn trefnu ac yn cyfrif rhifau o 10 i 20 yn ddibynadwy. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 yn creu siartiau cyfrif o’u hoff ddinosoriaid ac yn defnyddio’u medrau TGCh i gyflwyno’u data mewn pictogram yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio strategaethau ysgrifenedig a meddwl i ddyblu rhifau dau ddigid yn hyderus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth dda o rif ac yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addas i ddatrys ystod eang o broblemau rhif. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4

yn defnyddio’u medrau rhifedd i gyfrifo’r pellter rhwng gwledydd yn effeithiol ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn gweithio’n systematig i ddod o hyd i’r holl ddeilliannau posibl wrth ymchwilio i ganlyniadau gemau mewn cystadleuaeth bêl-droed. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn llwyddiannus wrth gwblhau ymchwiliadau gwyddonol. Er enghraifft, maent yn casglu ac yn cofnodi mesuriadau yn gywir ac yn cyflwyno’u canfyddiadau gan ddefnyddio graffiau priodol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio’u medrau rhifedd mor effeithiol ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob un o’r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a gwnânt gynnydd da wrth ddatblygu’u medrau llefaredd Cymraeg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio cyfarchion ac ymadroddion sylfaenol yn hyderus. Maent yn canu penillion a chaneuon Cymraeg cyfarwydd yn frwd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o batrymau ac ymadroddion syml yn gywir, er enghraifft i ddisgrifio’r tywydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn ac yn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi’u barn yn glir, gan ddefnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau yn dda. Mae’r disgyblion mwyaf abl yn defnyddio patrymau iaith mwy cymhleth ac maent yn aml yn ymestyn eu siarad er mwyn rhoi rhesymau dros eu barn.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac yn defnyddio’u medrau TGCh yn effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llechi yn annibynnol ar gyfer amrywiaeth o dasgau. Er enghraifft, maent yn defnyddio ap sgrin werdd i greu fideos fel rhan o’u thema, Archarwyr. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau codio effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn mireinio’u rhaglennu i reoli symudiad robot, fel ei fod yn symud drwy ddrysfa yn llwyddiannus. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio ap codio yn hyderus i greu gêm ryngweithiol i ddal ysbryd. Maent yn nodi’r gwelliannau y gellir eu gwneud i’w gêm, fel mynd yn arafach fel ei bod hi’n haws dal yr ysbryd.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron bob un o’r disgyblion yn dod i’r ysgol yn hapus ac yn siarad yn frwd am eu dysgu. Mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, mae bron bob un o’r disgyblion yn ymgysylltu’n dda ag athrawon ac oedolion eraill. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gwrtais i’w gilydd ac i staff ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefel uchel o barch a gofal tuag at ei gilydd. Mae bron bob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd angen cymorth arnynt. Mae arweinwyr digidol yr ysgol yn helpu disgyblion eraill i ddeall sut i gadw’n ddiogel ar-lein.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i ddewis bwyta’n iach. Er enghraifft, maent yn esbonio pam mae’n fuddiol bwyta ffrwythau a pham nad yw yfed diodydd siwgraidd yn synhwyrol. Ar draws yr ysgol, mae bron bob un o’r disgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol ac mae llawer ohonynt yn mwynhau’r gweithgareddau allgyrsiol y mae’r ysgol yn eu darparu. Mae llawer o ddisgyblion yn helpu eu hunain i gadw’n heini trwy ddefnyddio’r offer chwarae ar dir yr ysgol, gan gynnwys yr offer dringo a’r ardal gemau amlddefnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am 'hawl y mis' a beth mae'n ei olygu iddynt. Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos parch tuag at yr amgylchedd ac yn deall bod eu penderfyniadau yn effeithio arno. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos pryder tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft trwy drefnu gweithgareddau rheolaidd i godi arian ar gyfer elusen therapi plant.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni rolau arwain fel rhan o amrywiol grwpiau llais y disgybl. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau, yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd beunyddiol yr ysgol. Mae gwaith y pwyllgor eco yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o gynaliadwyedd. Er enghraifft, fe wnaeth aelodau'r grŵp hwn weithio gyda chyflenwr lleol i leihau faint o blastig defnydd unigol sydd yn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion bellach yn defnyddio poteli y gellir eu hailgylchu i yfed llaeth.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau. Maent yn deall y bydd agwedd gadarnhaol yn eu helpu i oresgyn heriau y gallent eu hwynebu yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth briodol yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithredu'n dda yn ystod tasgau pâr neu grŵp. Maent yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i ganolbwyntio yn dda.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae cyfraddau cyffredinol presenoldeb yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan yr holl athrawon a chynorthwywyr addysgu berthynas gadarnhaol â disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn dangos dealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol. Gosodant ddisgwyliadau clir ar gyfer agweddau ac ymddygiad disgyblion mewn gwersi ac maent yn modelu'r rhain yn gyson dda.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu cyffrous sy'n holio sylw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Gwnânt ddefnydd da o ddiddordebau a syniadau disgyblion i gynllunio tasgau buddiol sy'n ysgogi awydd disgyblion i ddysgu yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn mwynhau olrhain eu cynnydd wrth gyflawni'r nodau a osodont ar gyfer eu dysgu fel rhan o'r pwnc ar y Tuduriaid. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi eu rôl yn cyfeirio'u dysgu ac mae hyn yn eu symbylu i weithio gyda ffocws a brwdfrydedd. Mae athrawon yn gwneud defnydd gwerthfawr o gysylltiadau â sefydliadau lleol a chenedlaethol i gyfoethogi'r profiadau dysgu o ansawdd uchel y mae'r ysgol yn eu darparu.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio adnoddau ac arteffactau yn effeithiol i ddal sylw disgyblion ar ddechrau gwersi. Maent yn trefnu gweithgareddau i ddarparu cydbwysedd buddiol o waith dosbarth cyfan, grŵp ac unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir a chryno sy'n helpu disgyblion i ymroi'n gyflym i'w tasgau a gweithio gyda ffocws. Fodd bynnag, mewn ychydig wersi, mae athrawon yn siarad am ormod o amser ac nid yw eu disgwyliadau ynghylch yr hyn y dylai disgyblion ei gyflawni yn ddigon heriol.

Mae athrawon yn y cyfnod sylfaen yn cynllunio llawer o gyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ddatblygu'u creadigrwydd a'u medrau creadigol trwy chwarae a gweithio gydag eraill. Maent yn sefydlu arferion defnyddiol ac yn trefnu'r amgylchedd dysgu, dan do ac awyr agored, i gynorthwyo disgyblion i weithio'n annibynnol yn effeithiol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn ymyrryd yn sensitif i helpu disgyblion i oresgyn anawsterau a'u hannog i roi cynnig ar eu syniadau. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo disgyblion ym Mlwyddyn 1 i gydweithredu'n bwrpasol wrth greu cwrs rhwystrau i anifail, fel rhan o thema'r Goedwig Hud.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio tasgau sy'n adeiladu'n briodol ar wybodaeth flaenorol disgyblion. Maent yn gosod amcanion clir ar gyfer dysgu'r disgyblion ac yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau holi i wirio dealltwriaeth disgyblion ac i ymestyn eu meddwl yn effeithiol. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion sy'n nodi pa mor dda y maent wedi cwblhau tasg ac yn canmol agweddau da ar eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon bob amser yn nodi'n ddigon clir pa gamau penodol y dylai disgyblion eu cymryd i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn dechrau addasu ei darpariaeth i adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae menter 'Cwricwlwm a Mwy' yr ysgol yn rhoi cyfle buddiol i ddisgyblion mewn dosbarthiadau gwahanol weithio gyda'i gilydd ar brosiectau bach sy'n canolbwyntio ar eu diddordebau cyffredin. Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd a TGCh disgyblion yn gynyddol trwy amrywiaeth dda o weithgareddau dysgu, ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau pwrpasol ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu cystal. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynnig cymorth ychwanegol gwerthfawr iawn i ddisgyblion penodol i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd trwy amrywiaeth o ymyriadau targedig. Mae gan y staff sy'n darparu'r cymorth hwn gryn arbenigedd ac maent yn gweithio'n fedrus i alluogi disgyblion i leihau bylchau yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r holl staff yn fodelau da ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Maent yn defnyddio Cymraeg llafar yn fynych ac yn gyson drwy gydol y diwrnod ysgol ac mae eu brwdfrydedd yn cael effaith fuddiol ar fedrau ac agweddau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i'r holl ddisgyblion ddatblygu'u medrau Cymraeg mewn gwersi a thrwy sesiynau byr, â ffocws, Helpwr Heddiw. Maent yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn dda i ychwanegu at hunaniaeth Gymreig disgyblion ac i gyfoethogi'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn ymweld â phentref oes haearn Castell Henllys i ddysgu am fywyd pobl Geltaidd ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn dysgu am effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar deuluoedd lleol sydd wedi'u cofio ar gofeb y pentref.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi pob dysgwr ac oedolyn. Mae pwyslais cryf ar bwysigrwydd parch a gwydnwch, a chaiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar agweddau disgyblion. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n bwrpasol at dddatblygu ethos gofalgar yn yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn siarad â disgyblion yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn barod i fynd ati i ddysgu yn y dosbarth.

Mae systemau cynhwysfawr ar waith i olrhain a monitro cynnydd yr holl ddisgyblion yn effeithiol. Mae staff yn nodi'r disgyblion a allai elwa o gymorth ychwanegol, yn gynnar. Maent yn darparu amrywiaeth gynhwysfawr o ymyriadau sy'n cynorthwyo'r disgyblion hyn i wneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd, a gwella'u lles. Er enghraifft, mae'r cymorth unigol i ddisgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn helpu i ddatblygu'u hunan-barch yn llwyddiannus. Mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn defnyddio cyfarfodydd tymhorol ag athrawon i werthuso effaith y cymorth hwn yn ofalus. Gyda'i gilydd, maent yn gosod camau defnyddiol ar gyfer gwella yn y dyfodol sy'n galluogi disgyblion i barhau i wneud cynnydd da.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu â rhieni yn dda ac mae wedi sefydlu partneriaeth gadarnhaol iawn. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae'r ysgol yn eu darparu iddynt i gael gwybod am ddysgu eu plentyn a'i ddathlu. Er enghraifft, mae gweithdai a diwrnodau agored rheolaidd yn rhoi gwybod i rieni am agweddau allweddol ar waith yr ysgol, fel sut mae staff yn datblygu medrau darllen disgyblion ac yn cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r rhain yn helpu rhieni i gefnogi lles a dysgu'u plentyn gartref. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth berthnasol a chyfredol gyda rhieni trwy amrywiaeth dda o sianeli cyfathrebu. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn addysgiadol ac yn arddangos gwybodaeth fanwl athrawon am ddisgyblion unigol.

Mae trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithgar yn ystod y diwrnod ysgol a thrwy amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ymarfer corff i'w hiechyd.

Mae staff yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion chwarae rhan weithgar mewn gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth. Mae hyn wedi galluogi disgyblion ar y Cyngor Eco yn benodol i gael effaith sylweddol ar leihau ôl troed carbon yr ysgol trwy sicrhau cyllid i osod paneli solar ac adnewyddu goleuadau ledled yr ysgol. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd ystyrlon a rheolaidd i ddisgyblion benderfynu beth maen nhw eisiau ei ddysgu ar ddechrau pob pwnc a dewis profiadau dysgu, fel taith i'r Baddonau Rhufeinig.

Mae mesurau trylwyr ac effeithiol ar waith gan yr ysgol i olrhain presenoldeb. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cysylltiadau â'r gymuned yn gryfder yn yr ysgol ac maent yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn fuddiol. Er enghraifft, mae gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yn helpu disgyblion i ddatblygu'u defnydd o Gymraeg llafar ac mae cymryd rhan mewn 'clwb gwau sy'n pontio'r cenedlaethau' yn galluogi disgyblion i wella'u medrau cymdeithasol a chreadigol. Mae staff yn cydweithredu'n dda ag ysgol leol eraill i gefnogi'r Ŵyl Calan Mai leol. Mae'r ysgol yn defnyddio'i chysylltiadau â busnesau lleol yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff o'r siop leol wedi cyflwyno gweithdai defnyddiol i ddisgyblion ar gyllidebu a siopa.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau'r ystafell ddosbarth. Mae'r holl staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth gref o dda a drwg, ac maent yn hybu parch tuag at gymuned yr ysgol, er enghraifft trwy annog disgyblion i ddilyn Rheolau Diemwnt yr ysgol.

Mae amrywiaeth helaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau, yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae cerddorfa'r ysgol a'r côr yn ymarfer yn rheolaidd ac maent yn aml yn perfformio mewn digwyddiadau lleol, fel troi goleuadau'r Goeden Nadolig ymlaen yn y pentref.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn ddelfryd ymddwyn gref sy'n cynnig arweinyddiaeth drylwyr ac effeithiol i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion, ac mae'n gosod cyfeiriad strategol clir sy'n canolbwyntio'n dda ar sicrhau cynnydd disgyblion yn eu dysgu a'u lles. Mae uwch dîm arwain yr ysgol yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Er enghraifft, mae'r dirprwy bennaeth dros dro yn arwain ar wella addysgu gwyddoniaeth yn effeithiol. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth wasgaredig yn yr ysgol yn dda. Mae'r holl staff yn gweithredu fel arweinwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Gan ystyried cryfderau a doniau unigol, mae arweinwyr wedi trefnu staff yn dimau dysgu sydd wedi'u cysylltu â chwe maes dysgu'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Maent yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu profiadau dysgu wedi'u cyfoethogi i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau cadarnhaol iawn gyda rhieni ac aelodau cymuned leol Radur a Threforgan yn llwyddiannus. Maent yn gwerthfawrogi gwaith caled y rhieni sy'n trefnu digwyddiadau cymdeithasol a digwyddiadau codi arian er budd yr ysgol ac maent yn cefnogi digwyddiadau a mentrau lleol yn gyson. O ganlyniad, mae cymuned gyfan yr ysgol yn rhannu ymrwymiad cadarn i wireddu gweledigaeth yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel sefydliad sy'n dysgu. Mae cyfarfodydd uwch arweinwyr a chyfarfodydd staff yn galluogi'r holl staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, i gyfrannu'n bwrpasol at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae gan staff amrywiaeth o gyfleoedd buddiol i ddatblygu'u medrau proffesiynol. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â'u hamcanion rheoli perfformiad a blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, mae hyfforddiant ysgol gyfan wedi gwella hyder yr athrawon i ddefnyddio ymadroddion a gorchmynion Cymraeg gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at addysgu gwell ac, o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddablygu'u medrau Cymraeg eu hunain.

Mae prosesau monitro a hunanwerthuso'r ysgol yn drylwyr. Mae arweinwyr yr ysgol yn gwerthuso perfformiad disgyblion yn ofalus i nodi agweddau ar ddysgu'r disgyblion y mae angen eu gwella. Defnyddiant ystod eang o wybodaeth i lywio'u myfyrdodau, fel teithiau dysgu, data asesiadau, craffu ar lyfrau a gwrando ar ddisgyblion. Mae arweinwyr yn nodi'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn gywir. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â gwelliannau yn gyflym ac yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion eraill yn lleol ac yn y rhanbarth i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddysgu o arfer dda y tu hwnt i'r ysgol ac i arwain hyfforddiant i gydweithwyr. Er enghraifft, mae athrawon yn ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau eu hunain trwy ddarparu hyfforddiant i ysgolion eraill ar ddefnyddio strategaethau i wella medrau TGCh disgyblion.

Mae gan lywodraethwyr amrywiaeth werthfawr o arbenigedd proffesiynol a chwaraeant ran allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol i'r ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac yn cefnogi'i gwaith yn briodol. Mae llywodraethwyr yn defnyddio'u gwybodaeth am yr ysgol, a gafwyd trwy eu hymweliadau monitro rheolaidd, i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, ac maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i herio'r tîm arweinyddiaeth yn dda fel ffrindiau beirniadol.

Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Maent yn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng gwariant a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn gwerthuso effaith gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid er mwyn darparu rhaglenni ymyrraeth effeithiol i wella medrau a lles disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl a nodir yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynllluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020